Haf 2024

# Croeso i gylchlythyr y Cyfeillion

Cyfeillion Seindorf Beaumaris Band

Gobeithio, hyd yma, eich bod wedi cael 2024 gwych ac yn edrych ymlaen at haf cynnes. Er mai dim ond hanner ffordd drwy'r flwyddyn yr ydym ni, mae Cyngerdd yr Haf yn nodi diwedd blwyddyn y band (cyn i'r cyfan ddechrau eto ym mis Medi) - a dyna flwyddyn mae hi wedi bod! Yn dilyn o lwyddiannau'r llynedd, y gwanwyn yma bu'r Band Ieuenctid yn cystadlu yn Lithuania a'r Band Hŷn ym Mirmingham,- ychydig yn llai egsotig! Gwnaethant yn dda iawn, a llwyddodd y Cyfeillion, eich elusen, i roi cymorth sylweddol i'r ddau fand. Ceir mwy o fanylion yn y newyddion isod.

Yn gynharach eleni, roedd adroddiadau yn y newyddion cenedlaethol yn sôn am y dirywiad ym myd bandiau pres ar draws Cymru a Lloegr. Mae Biwmares a'r cylch yn ffodus iawn i gael teulu llewyrchus o fandiau sy'n darparu hyfforddiant i ddysgwyr a'u meithrin yr holl ffordd hyd at lwyddiannau'r bandiau Ieuenctid a Hŷn. Gwneir hyn yn bosibl gan ymdrech ac ymroddiad anhygoel y bobl sy'n gweithio i gadw'r bandiau i fynd, rhieni chwaraewyr ifanc a'r llu o bobl sy'n cefnogi'r bandiau mewn sawl ffordd. A chofiwch, rydych chi- Cyfeillion Seindorf Band Biwmares, yn rhan bwysig iawn o'r gefnogaeth hollbwysig yma.

Gobeithiwn eich gweld yng Nghyngerdd yr Haf dydd Sadwrn 13 Gorffennaf, a gobeithio eich bod wedi llwyddo i gyrraedd a mwynhau'r Cyngerdd Nadolig diwedd llynedd. Y 'Cyfeillion' s'yn rhedeg y raffl a'r bar gan helpu i godi arian i gynnal holl fandiau Seindorf Biwmares.

## Llwyddiant Band Ieuenctid yn Ewrop!



Rydym yn falch o gael dweud bod Band Ieuenctid Biwmares wedi cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Ieuenctid Ewrop ar y 5ed o Fai yn Palanga, Lithuania. Perfformiasant yn arbennig o dda ar lwyfan Band Ieuenctid mwyaf y byd, a daethant yn drydydd mewn gornest galed o safon uchel. Roedd yn ganlyniad agos iawn, dim ond 1 pwynt o'r ail safle!

Roedd hi'n benwythnos i'w thrysori i'n band o gerddorion ifanc hwyliog a hynod ddawnus. Profiad gwych iddynt a hwb enfawr i'w datblygiad a'u taith ym myd cerddoriaeth! Diddorol yw deall fod deg o aelodau'r band wedi cystadlu yn yr un gystadleuaeth chwe blynedd yn ôl yn Utrecht!

Roedd Cyfeillion Seindorf Biwmares yn falch o roi cyfraniad sylweddol a hanfodol tuag at gost y daith i Lithuania.

**Digwyddiadau i Ddod 2024:**

| | | |
|---|---|---|
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 13eg 7.30pm | Cyngerdd Haf | Canolfan |
| **Medi** | | |
| Sul 22ain 12pm | Beaumaris Fun Run | |
| **Hydref** | | |
| Fri 18fed 7.00pm | Noson Cawl a Chân | Band room |
| **Tachwedd** | | |
| Sun 10fed | Goremdaith Dydd y Cofio | |
| Fri 15fed 7.00pm | Bingo Nadolig | Band room |
| Sun 17eg | Youth Brass In Concert | Gateshead |
| Sat 23ain 1.00pm | Ffair Nadolig | Town Hall |
| **Rhagfyr** | | |
| Fri 6ed 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |
| Sat 7fed 7.00 pm | Cyngerdd Nadolig | Canolfan |

## Band Hŷn yn ennill yn ConsTest

Ym mis Ebrill cafodd y Band ddiwrnod gwych yn y Conservatoire Brenhinol ym Mirmingham. Gwobrwywyd gwaith caled Bari Gwilliam a'r band i gyd gyda digon o lestri arian i fynd adref.

Daeth Seindorf Biwmares Band yn 3ydd drwyddo draw, ynghyd ac ennill hefyd:

- Safle uchaf Band Adran Gyntaf
- Corneti  Gorau'r Rhes Gefn
- Y Baswyr Gorau



Roedd y bandiau i gyd wedi mwynhau gornest drefnus, strwythuredig gyda naws hamddenol. Roedd gofod ac amser ymarfer hael a'r fformat yn caniatáu i fandiau chwarae cerddoriaeth oedd yn gweddu iddyn nhw. Chwaraeodd Biwmares '*The Saga of Haakon the Good*' a chawsant dderbyniad da iawn.

Dyma sylwad gan '*Brassing Around'…* "cafodd yr unawdydd ewffoniwm ddiwrnod gwych ynghyd â'r prif gornetwr ifanc disglair oedd yn eistedd gyferbyn".

Cystadleuaeth ConsTest oedd trip cyntaf y ddau offeryn bâs a adnewyddwyd yn ddiweddar ac a ariannwyd gan Gyfeillion Seindorf Band Biwmares; felly roedd eich cyfraniad chi yn rhan o'r llwyddiant wrth iddynt ennill y wobr honno!



## Gŵyl Biwmares

Wedi dychweliad hir-ddisgwyliedig i Ŵyl Biwmares cyflwynodd y Band Hŷn raglen ddifyr gyda rhywbeth at ddant pawb - o gerddoriaeth Glenn Miller i Johann Strauss, *Sosban Fach* i *Mood Indigo*!

## Cystadleuaeth y Drenewydd

Chwaraeodd y Band Canolradd a'r LSW yn y gystadleuaeth awyr agored hyfryd yn y Drenewydd. Roedd y tywydd yn garedig, pawb wedi mwynhau'r diwrnod a daeth y ddau fand adref gyda thlysau!

Yn yr adran Ieuenctid daeth y Band Canolradd yn gydradd 1af gyda Band Ieuenctid Gogledd Powys, gyda Hari Siôn- offerynnwr taro ieuengaf y dydd. Daeth LSW yn 1af yn yr adran bandiau anghofrestredig.

## Gweithgareddau codi arian

Mae aelodau pob un o'r bandiau wedi bod yn brysur yn codi arian, yn enwedig felly er budd taith lwyddiannus y Band Ieuenctid i Lithuania. Ymhlith yr uchafbwyntiau:

- Cyngerdd yn Llangoed gan chwaraewyr ifanc Biwmares. Cafwyd perfformiad gwych oedd yn adlewyrchu talent y Band Canolradd - sy'n sicrhau dyfodol y bandiau. Rhoddodd y Band Ieuenctid ragflas o'u rhaglen yn y gystadleuaeth Ewropeaidd
- Hyfryd oedd 'Prynhawn Adloniadol' gan aelodau iau'r bandiau ble arddangoswyd eu doniau lleisiol rhyfeddol yn ogystal â'u gallu ar offerynnau amrywiol
- Llwyddodd taith feicio ar draws Ynys Môn i godi arian , fel y gwnaeth taith gerdded noddedig 10km a orffennodd ym Melin Llynon.
- Ym mis Mehefin cynhaliodd y bandiau Iau a Chanolradd Fore Coffi llwyddiannus iawn a chafwyd presenoldeb da



**Cyfeillion Gwefan** www.friendsofbeaumarisband.org.uk

Peidiwch ag anghofio ymweld â gwefan Cyfeillion Seindorf Band Biwmares, lle byddwch yn dod o hyd i fwy o luniau, dyddiadau pwysig a'r newyddion diweddaraf.